

Bwrdd Cymwysterau Cymru

QWB52.2 Cofnodion cyfarfod Bwrdd Cymwysterau Cymru a gynhaliwyd ar 11 Tachwedd 2021

Yn bresennol:

Bwrdd Cymwysterau Cymru: David Jones (DBJ) (Cadeirydd), Jayne Woods (JW), Robert Lloyd Griffiths (RLG), Philip Blaker (PB), Hannah Burch (HB), Sharron Lusher (SL), Graham Hudson (GH), Michael Griffiths (MG), David W Jones (DWJ) a Julie Brannan (JB).

Staff Cymwysterau Cymru: Jo Richards (JR), Alison Standfast (AS), Emyr George (EG), Cassy Taylor (CT), Leonie White (LW), Mark Pender (MP), Kerry Price (KP) (Eitem 8), Lisa Evans (LE) (Eitem 8) a Tom Anderson (TA) (Eitem 7).

Llywodraeth Cymru: Jo Valentine (JV), Mike Keoghane (MK)

Ymddiheuriadau: Anne-Marie Duffy (AMD) a Douglas Blackstock (DB)

1. Croeso ac Ymddiheuriadau

1.1. Croesawodd y Cadeirydd pob aelod i'r cyfarfod.

2. Cofnodion Bwrdd Cymwysterau Cymru a gynhaliwyd ar 23 Medi 2021 a Diweddariad ar y Camau Gweithredu

2.1. Cymeradwyodd y Bwrdd y cofnodion fel cofnod cywir o'r trafodaethau, yn amodol ar y canlynol:

- Cywiro gwallau teipograffyddol;
- Mân newid ym mharagraff 6.11;
- Ychwanegu paragraff (i'w gytuno y tu allan i'r cyfarfod) i ymdrin â'r drafodaeth ar faint cymwysterau a dealltwriaeth / canfyddiad dysgwyr o hyn.

2.2. Nododd y Bwrdd y Log Gweithredu, a nododd y Cadeirydd nad oedd unrhyw gamau yr oedd angen eu hystyried yn y cyfarfod hwn.

2.3. Holwyd ynglŷn â pholisi Llywodraeth Cymru ar gymwysterau Cymraeg, a dywedwyd bod trafodaethau ar y gweill ynglŷn â hyn a'r gobaith o hyd yw y byddai Llywodraeth Cymru yn egluro'r safbwynt polisi mewn pryd i benderfyniad gael ei wneud ym mis Ionawr 2022.

3. Adroddiad y Cadeirydd

3.1. Dywedodd y Cadeirydd ei fod wedi cwblhau'r broses o adolygu perfformiad aelodau'r Bwrdd yn ddiweddar, ac fel rhan o hynny roedd wedi cynnal cyfarfodydd un-i-un gyda holl aelodau'r Bwrdd. Ar ôl hynny, roedd wedi cynhyrchu dogfen gryno yn tynnu sylw at themâu cyffredin a godwyd, a oedd yn cynnwys meysydd blaenoriaeth ar gyfer aelodau'r Bwrdd. Roedd y rhain yn cynnwys y canlynol:

- Gweithio rhithwir/hybrid, yn benodol sut y gellir ei fireinio i wneud y defnydd gorau o amser y Bwrdd a'r arweiniad a roddir i aelodau'r Bwrdd.
- Yr ymdeimlad o gyfrifoldeb a deimlai'r Bwrdd mewn perthynas â Chymwys ar gyfer y Dyfodol, a oedd yn amlwg yn faes gwaith allweddol i Cymwysterau Cymru. Roedd y Bwrdd yn awyddus i gadw'n agos at hyn ac roedd wedi gofyn am i ddiweddariadau gael eu darparu ym mhob un o gyfarfodydd y Bwrdd.
- Codwyd asesiad digidol hefyd fel mater allweddol ar gyfer y dyfodol, a theimlwyd bod cyfle gwirioneddol i fwrw ymlaen â hyn o ystyried arbenigedd y Bwrdd.
- Sut y gall Cymwysterau Cymru wneud gwell defnydd o ymchwil a gomisiynwyd i gefnogi ei waith a'r penderfyniadau a wna'r Bwrdd.

Byddai'r pwyntiau hyn a'r gweddill a restrir yn yr adroddiad cryno yn cael eu datblygu, eu hadolygu'n fisol gyda'r Pennaeth Llywodraethu Corfforaethol, a byddai diweddariadau rheolaidd yn cael eu darparu i aelodau yng nghyfarfodydd yr NED a'r Bwrdd.

3.2 Roedd yr adroddiad blynyddol bron wedi'i gwblhau, a diolchwyd i RLG am ei gyfraniad i hyn. Roedd disgwyl y byddai'r Prif Weithredwr a'r Cadeirydd yn cyflwyno'r Adroddiad Blynyddol i Bwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Senedd ar 2 Rhagfyr 2022.

3.3 Roedd y Cadeirydd yn awyddus i drefnu cyfarfod deuddydd o'r Bwrdd o amgylch un o gyfarfodydd y Bwrdd yn gynnar yn 2022, a gofynnwyd i MP gysylltu ag aelodau'r Bwrdd i weld a oedden nhw ar gael a chadarnhau dyddiad fel mater o flaenoriaeth.

Crynodeb o Benderfyniadau /Camau Gweithredu

- **Nododd y Bwrdd adroddiad y Cadeirydd.**
- **Roedd MP i gysylltu ag aelodau'r Bwrdd i weld a ydynt ar gael ar gyfer cyfarfod deuddydd fel mater o flaenoriaeth.**

4. Adroddiad y Prif Swyddog Gweithredol

- 4.1 Cyflwynodd PB ei adroddiad diweddar (QWB51.4) a chrynhoi ei gynnwys i'r Bwrdd. Dywedwyd bod nifer y cofrestriadau ar gyfer sesiwn arholiadau'r gaeaf yn eithaf uchel, gyda'r rhan fwyaf o'r rhain yn bobl ifanc 16 oed, gyda llai o bobl ifanc 17 oed yn cael ailsefyll nag arfer. Rhagwelwyd y gallai fod nifer uwch o absenoldebau a thynnu'n ôl oherwydd y pandemig.
- 4.2 O ran haf 2022, roedd rhywfaint o bwysau ar y Gweinidog i ganslo'r gyfres arholiadau oherwydd presenoldeb gwael ymhlith dysgwyr a phrinder athrawon oherwydd y cynnydd yn nifer yr achosion o Covid. Cafwyd straeon yn y cyfryngau am y materion hyn a pheth cefnogaeth gan sefydliadau cynrychioliadol. Roedd Cymwysterau Cymru wedi gofyn i CBAC edrych ar unrhyw addasiadau pellach y gellid eu gwneud i'r trefniadau asesu. Roedd cyfarfodydd rheolaidd yn mynd rhagddynt gyda'r Gweinidog i drafod y cynlluniau presennol yn ogystal â risgiau a materion byw. Gofynnodd aelod o'r Bwrdd beth y gellid ei wneud i ystyried yr amrywiadau yn narpariaeth ysgolion yn sgil y pandemig, ac ymatebodd PB fod addasiadau eisoes wedi'u rhoi ar waith gan CBAC ac efallai y byddai angen addasiadau pellach, yn enwedig pe bai newidiadau pellach yn cael eu gwneud yn Lloegr.
- 4.3 Trafododd y Bwrdd yr effaith sylweddol y byddai canslo'r gyfres arholiadau yn ystod haf 2022 yn ei chael ar y broses asesu a dyfarnu, a phwysigrwyd cyfleu hyn i'r Gweinidog.

Crynodeb o Benderfyniadau /Camau Gweithredu:

Nododd y Bwrdd adroddiad y Prif Swyddog Gweithredol.

5. Diweddariad ar Cymwys ar gyfer y Dyfodol

- 5.1. Rhoddodd EG drosolwg o'r sefyllfa bresennol o ran Cymwys ar gyfer y Dyfodol a thynnodd sylw at y canlynol:
- Roedd yr ymateb i'r penderfyniadau a wnaed hyd yma wedi bod yn gadarnhaol ar y cyfan. Y penderfyniad mwyaf dadleuol fu'r llwybr sengl ar gyfer Gwyddoniaeth ar lefel TGAU, a chynlluniwyd mwy o gyfathrebu ac ymgysylltu â rhanddeiliaid i egluro'n well y rhesymeg y tu ôl i'r penderfyniad hwn, yn enwedig i rieni a dysgwyr. Nodwyd bod y Cymdeithasau Dysgedig yn cefnogi'r llwybr sengl ar gyfer Gwyddoniaeth ar lefel TGAU.
 - O ran datblygu ar y cyd, roedd y diddordeb mewn cymryd rhan yn y broses hon wedi cynyddu, ac roedd aelodaeth y grwpiau lefel pwnc a'r grŵp cyfeirio rhanddeiliaid bellach yn edrych yn llawer gwell. Roedd y broses recriwtio i'r swyddi gweigion yn y prosiect Cymwys ar gyfer y Dyfodol hefyd yn mynd rhagddo a'r gobraith oedd y byddai hyn yn cael ei gwblhau yn fuan.
 - Roedd gwaith y Cynnig Ehangach bellach ar y gweill, ac roedd yr ymatebion a gafwyd wedi bod yn gadarnhaol iawn. Roedd yr ymatebion cychwynnol wedi pwysleisio'r angen i alluogi dysgwyr i ddatblygu sgiliau bywyd, sgiliau gwaith a

sgiliau meddal, a bod angen ehangu'r dewisiadau sydd ar gael i ddysgwyr lle'r oedd ffocws cryf ar TGAU ar hyn o bryd.

- Roedd y gwaith cynllunio ar gyfer 2022 a thu hwnt yn parhau, ac roedd Rheolwr Prosiect newydd wedi'i benodi a fyddai'n dechrau yn ystod yr wythnos nesaf. Byddai cynllunio ar gyfer y cam nesaf yn canolbwyntio ar y goblygiadau o ran adnoddau ar gyfer gwahanol senarios a rhagwelwyd y byddai penderfyniad ar y cam nesaf yn cyrraedd y Bwrdd yn haf 2022. Roedd llythyr at y Gweinidog wedi'i gynllunio ar gyfer mis Rhagfyr i roi'r wybodaeth ddiweddaraf iddo am y cynnydd ac i dynnu sylw at risgiau.

- 5.2 Diolchodd y Cadeirydd i EG am y diweddariad defnyddiol a gofynnodd i'r wybodaeth hon gael ei darparu i'r Bwrdd yn y dyfodol cyn y cyfarfod er mwyn rhoi mwy o amser i drafod. Wrth i'r prosiect Cymwys ar gyfer y Dyfodol fynd rhagddo, roedd y Bwrdd yn awyddus i sicrhau bod materion yn ymwneud ag ehangder yr asesu, rôl athrawon mewn asesu, ac i ba raddau y gellid datblygu'r defnydd o e-asesu yn cael eu hystyried, a byddai'r Bwrdd yn chwilio am safbwyntiau rhanddeiliaid ar y rhain wrth wneud penderfyniad.

Crynodeb o Benderfyniadau /Camau Gweithredu:

Nododd y Bwrdd y diweddariad a ddarparwyd ar gam nesaf Cymwys ar gyfer y Dyfodol.

6. Naratif Sefydliadol Cymwysterau Cymru

- 6.1 Cyflwynodd LW adroddiad ar ddatblygu Naratif Sefydliadol Cymwysterau Cymru. Adroddwyd bod y naratif drafft wedi'i rannu â rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys CBAC, Ofqual, ASCL a Cholegau Cymru. Roedd adborth gan y rhanddeiliaid allanol hyn, a chan aelodau'r Bwrdd, wedi'i dderbyn a'i ystyried yn ystod y broses o gynhyrchu'r naratif. Roedd un sylw allweddol yn ymwneud â'r angen i wneud yr iaith yn glir ac yn hygyrch i bob cynulleidfa, ac roedd hyn wedi'i ystyried.
- 6.2 Byddai fersiwn derfynol naratif y sefydliad yn cael ei hanfon at bwyllgor gwaith y Bwrdd erbyn diwedd yr wythnos.
- 6.3 Soniodd aelod o'r Bwrdd am yr amser a gymerodd i ddatblygu'r naratif, a chydabuwyd bod hyn wedi cymryd mwy o amser na'r disgwyl oherwydd anawsterau wrth ymgysylltu â rhanddeiliaid a'r galw ar adnoddau o fewn y sefydliad.

Crynodeb o Benderfyniadau /Camau Gweithredu:

Nododd y Bwrdd y sefyllfa bresennol o ran Naratif Sefydliadol Cymwysterau Cymru.

7. Cwricwlwm Rhagoriaeth (*Curriculum for Excellence*): Adroddiad Gordon Stobart ar asesu myfyrwyr addysg uwchradd uwch yn yr Alban

7.1. Ymunodd TA â'r cyfarfod a chyflwynodd adroddiad (QWB51.7) a oedd yn crynhoi canfyddiadau'r adroddiad a ysgrifennwyd gan Gordon Stobart ar asesiad myfyrwyr addysg uwchradd uwch yn yr Alban. Roedd hyn yn arbennig o berthnasol i Cymwysterau Cymru o ystyried y prosiect diwygio Cymwys ar gyfer y Dyfodol cyfredol. Tynnodd TA sylw at y pwyntiau allweddol canlynol:

- Er bod monitro datblygiadau yn yr Alban yn ddefnyddiol, roedd yn bwysig cofio bod y cyd-destun yn wahanol a bod gwahaniaethau allweddol rhwng y trefniadau yno ac yng Nghymru;
- Yr oedd yr Alban wedi bod ar y blaen i Gymru yn ei thaith ddiwygio, ond yn awr yr oedd yr Alban yn diwygio eto ac yr oedd amserlenni diwygio y ddwy wlad bellach yn nes o lawer;
- Gallai'r posibilrwydd o gael tystysgrif diwedd ysgol fel yr awgrymwyd yn adroddiad Stobart olygu diwedd cymwysterau yn 16 oed yn y pen draw, er y cydnabuwyd ei bod yn annhebygol y byddai Llywodraeth yr Alban yn dymuno mynd mor bell â hynny.
- Tynnwyd sylw at y cysyniad o system gymwysterau ddibynadwy, a ysgogwyd gan y pandemig a'r canfyddiad nad oedd y system mor wydn ag y gallai fod.

7.2. Adroddodd EG fod rhywfaint o'r meddylfryd yn adroddiad Stobart yn adlewyrchu rhai o'r syniadau diwygio sy'n cael eu datblygu fel rhan o Cymwys ar gyfer y Dyfodol. Yn ei farn ef, yr her yn awr oedd symud rhanddeiliaid ymhellach i gyfeiriad arloesedd gwirioneddol, gan fod profiad blaenorol wedi dangos y gallai fod rhywfaint o wrthwynebiad i hyn gan rhanddeiliaid a oedd am gynnal y sefyllfa bresennol.

7.3 Yna trafododd y Bwrdd gynnwys yr adroddiad, a gwnaed y pwyntiau canlynol yn ystod y cyfnod hwnnw:

- Awgrymodd aelod o'r Bwrdd ei bod yn sylfaenol anodd sicrhau newid sylweddol yn y system addysg, ac fel sefydliad roedd angen derbyn y gallai'r broses o gyflawni'r diwygiadau angenrheidiol fod yn ddadleuol. Roedd sefyllfa Cymwysterau Cymru o fod ar wahân ac yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru yn golygu ei bod mewn sefyllfa gref i arwain y sgwrs ar hyn. Fodd bynnag, cydnabuwyd bod y prosiect Cymwys ar gyfer y Dyfodol yn dechrau ar gyfnod o ddatblygu ar y cyd, felly byddai negeseuon yn allweddol i sicrhau bod rhanddeiliaid yn parhau i ymgysylltu â'r broses hon.
- Trafododd y Bwrdd y defnydd o 'ddibynadwyedd' a 'gwydnwch' yn adroddiad Stobart, ac a oedd hyn eisoes wedi'i gynnwys o dan MERV

(Hydrinedd, Ymgysylltu, Dibynadwyedd a Dilysrwydd). Awgrymwyd bod 'dibynadwyedd' yn egwyddor gyffredinol a adlewyrchwyd yn MERV.

- Dywedodd aelod o'r Bwrdd fod gwledydd a oedd yn gyflawnwyr uchel o ran canlyniadau academaidd a pherfformiad yn rhoi cryn bwys ar asesu a gynhelir gan athrawon. Yn ogystal, un feirniadaeth o gyflwyno'r cwricwlwm newydd yn yr Alban oedd bod canfyddiad na fu digon o arweiniad i athrawon, ac ystyriwyd hyn wrth ddatblygu'r cwricwlwm newydd yng Nghymru. Roedd y ddau beth hyn yn ail-gadarnhau yr angen i ystyried o ddifrif ffyrdd eraill o asesu deilliannau myfyrwyr ochr yn ochr ag arholiadau. Nodwyd y byddai lefel uwch o asesu gan athrawon yn dibynnu ar yr hyn yr oedd Llywodraeth Cymru wedi'i gynllunio ar gyfer mesurau atebolrwydd ar gyfer Canolfannau unigol, gan fod y model presennol o ddefnyddio canlyniadau cymwysterau mewn mesurau perfformiad yn cyflwyno gwrthdaro buddiannau sylweddol.
- Croesawyd yr awgrym yn adroddiad Stobart ynghylch diwygio fel proses ddiwylliannol a chymdeithasol yn hytrach na rhywbeth gwyddonol ac roedd yn cyd-fynd â phrofiadau ymarferol y ddwy flynedd ddiwethaf lle bu'n rhaid gwneud newidiadau'n gyflym oherwydd y pandemig. Cydnabuwyd bod cefnogaeth athrawon yn allweddol i ddiwygio llwyddiannus, ac roedd angen i Cymwysterau Cymru ystyried beth oedd angen iddo ei wneud i adeiladu'r diwylliant yn y system i'w alluogi i wneud y diwygiadau y gwyddai eu bod yn angenrheidiol. Roedd dylanwadu ar galonnau a meddyliau yn broses bwysig ac ar wahân i fecanwaith gwneud y penderfyniadau hyn.
- Nodwyd bod awgrym yn yr adroddiad eglurhaol y dylai Cymwysterau Cymru ryddhau erthygl neu flog am adroddiad Stobart, a'r teimlad oedd efallai nad dyma'r defnydd gorau o adnoddau ac yr oedd perygl i ni ymgolli mewn rhywbeth oedd yn perthyn i awdurdodaeth arall. Teimlwyd y dylai Cymwysterau Cymru ganolbwyntio yn lle hynny ar ei negeseuon allweddol ynghylch y daith ddiwygio yng Nghymru a pharhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid fel rhan o hyn.

7.4 Ar ddiwedd y drafodaeth, diolchodd y Cadeirydd i aelodau'r Bwrdd am eu cyfraniad i ddadl ddiddorol ac adeiladol.

8. Adroddiad Rheoli Risg Cynllun Gweithredol ac Adroddiad Cyllideb 2021/22

8.1 Nodwyd bod adroddiadau cynllun gweithredol a rheoli risg wedi'u dosbarthu ychydig cyn y cyfarfod oherwydd mai dim ond y diwrnod blaenorol y cawsant eu hystyried gan y Bwrdd Rheoli. Felly, nid oedd aelodau'r Bwrdd wedi cael cyfle i ystyried yr adroddiadau hyn yn llawn. Nid oedd angen unrhyw benderfyniadau yn deillio o'r adroddiadau hyn, ac felly gofynnwyd i'r aelodau godi unrhyw ymholiadau a allai fod ganddynt ynglŷn â'r manylion yn yr adroddiadau gyda'r tîm Llywodraethu Corfforaethol y tu allan i'r cyfarfod.

- 8.2 O ran adroddiad y gyllideb, adroddodd KP mai'r neges allweddol oedd y bu newid sylweddol yn y sefyllfa ariannol ar ddiwedd mis Hydref, gydag amrywiant cronol o £375,000 rhwng y gyllideb a gwariant cronol. Dyma'r amrywiant cronol mwyaf a welwyd hyd yma er na ragwelwyd y byddai'n aros ar y lefel hon.
- 8.3 O ran diwedd y flwyddyn, rhagwelwyd tanwariant o £416,000 (4%) a oedd yn bennaf oherwydd gostyngiad yn y rhagolwg ar gyfer gweithgareddau Cymwys ar gyfer y Dyfodol a hefyd gostyngiad mewn gweithgareddau craidd, yn enwedig o ran gweithgarwch monitro. Amlinellwyd goblygiadau'r gostyngiad hwn mewn monitro i'r Bwrdd.
- 8.4 Cwestiynodd aelod o'r Bwrdd fformat yr adroddiad a dywedodd ei fod yn ei chael yn anodd cael gafael ar sefyllfa ariannol sylfaenol y sefydliad o'r wybodaeth a ddarparwyd. Nid oedd ychwaith yn glir ynglŷn â'r ddeinameg ariannol gyda Llywodraeth Cymru, a beth oedd goblygiadau tanwariant ar ffrydiau ariannu yn y dyfodol.
- 8.5 Rhoddodd KP grynodeb o'r dull o adrodd ariannol a gymerwyd hyd yma a thynnodd sylw at y cysylltiad rhwng yr adroddiad cyllid a diweddariadau'r cynllun gweithredol wrth dynnu sylw at unrhyw amrywiadau sy'n peri pryder i'r Bwrdd. Wrth baratoi'r gyllideb bob blwyddyn roedd gan y sefydliad risg sylweddol o danwariant, a rôl yr adroddiad cyllid oedd nodi'r risgiau hyn a'u nodi pan ddaeth yn amlwg y byddent yn dod yn danwariant. Roedd KP yn hapus i drafod sut y gellid gwella'r adroddiadau gydag aelodau'r Bwrdd i sicrhau eu bod yn darparu'r wybodaeth briodol.
- 8.6 Awgrymodd y Cadeirydd y gallai fod problem benodol i aelodau newydd y Bwrdd o ran dod i arfer â'r ffordd y mae Cymwysterau Cymru yn cyflwyno gwybodaeth ariannol. Awgrymodd y dylid trefnu sesiwn frifio cyllid ar gyfer aelodau newydd i fynd i'r afael â hyn. Awgrymodd hefyd fod angen gwella'r adroddiadau gan bwyllgorau'r Bwrdd er mwyn sicrhau bod gan y Bwrdd y lefel briodol o sicrwydd mewn perthynas â materion ariannol, ac roedd templed ar gyfer darparu dull ffurfiol o adrodd yn cael ei ystyried ar hyn o bryd.
- 8.7 Daeth PB â'r drafodaeth i ben drwy amlinellu'r syniadau cychwynnol ar gyfer cyllideb 2022/23, a bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i addasu'r cydbwysedd rhwng cyllidebau cyflog a chyllidebau nad ydynt yn ymwneud â chyflog er mwyn sicrhau bod gan y sefydliad yr adnoddau dynol angenrheidiol i gyflawni ei waith mewn blwyddyn heriol arall.

Crynodeb o Benderfyniadau /Camau Gweithredu:

- **Nododd y Bwrdd yr adroddiad Cyllid a gofynnodd i'r fformat y caiff ei gyflwyno yn y dyfodol gael ei adolygu;**
- **Dylid trefnu papur brifio cyllid ar gyfer aelodau newydd cyn cyfarfod nesaf y Bwrdd ym mis Ionawr 2022.**

9. Contract yn fwy na throthwy Caffael y Llywodraeth (GPA)

- 9.1 Cyflwynodd AS bapur QWB51.10 a oedd yn gofyn am gymeradwyaeth y Bwrdd mewn perthynas â chontract ar gyfer gwasanaethau hwyluso i gefnogi grwpiau rhanddeiliaid MDPH fel rhan o broses datblygu ar y cyd Cymwys ar gyfer y Dyfodol.
- 9.2 Ers penodi cyflenwyr contract, nodwyd cyfleoedd i'w defnyddio ar gyfer meysydd gwaith eraill ac felly cynigiwyd cynyddu'r gwariant o dan y contract hwn i dalu am waith ychwanegol i gefnogi'r prosiect Cymwys ar gyfer y Dyfodol. Gallai'r contract hwn wedyn fod yn uwch na throthwy Caffael y Llywodraeth ac felly roedd angen cymeradwyaeth y Bwrdd.
- 9.3 Roedd y gwaith ychwanegol posibl yn cynnwys rhoi cyngor ar ddatblygu'r gwaith ymgysylltu â dysgwyr a'r grŵp cyfeirio rhanddeiliaid, ac roedd y cwmni mewn sefyllfa dda i gynghori a helpu Cymwysterau Cymru i wneud y defnydd gorau o adnoddau a hwyluso rhai digwyddiadau.
- 9.4 Yn ystod y drafodaeth a ddilynodd dywedodd aelodau'r Bwrdd nad oedd yn glir beth fyddai lefel y gwariant yn y pen draw, a bod y rheswm pam y cyflwynwyd hyn i'r Bwrdd i'w gymeradwyo hefyd yn aneglur. Nodwyd bod y Cynllun Dirprwyo yn gofyn am gymeradwyaeth y Bwrdd ar gyfer gwariant sy'n uwch na throthwy'r Cytundeb ar Gaffael gan Lywodraethau, ond ni nodwyd hyn yn glir yn yr adroddiad. Gofynnwyd felly i'r adroddiad gael ei ailysgrifennu a'i ailgyhoeddi i'r Bwrdd fel bod gan aelodau'r Bwrdd y wybodaeth angenrheidiol i wneud penderfyniad gwybodus.

Crynodeb o Benderfyniadau /Camau Gweithredu:

AS i ailysgrifennu'r adroddiad i gynnwys y wybodaeth y gofynnodd y Bwrdd amdani ac yna ei ddsbarthu i bwyllgor gwaith y Bwrdd i'w gymeradwyo.

10. Diweddariadau'r Pwyllgorau

- 10.1 Rhoddodd RLG ddiweddariad o gyfarfod y Pwyllgor Adnoddau a gynhaliwyd ar 21 Hydref 2021. Roedd yr eitemau a drafodwyd yn cynnwys materion Adnoddau Dynol, y cynllun gweithredol a chyllideb 2021/22, a chafodd y Pwyllgor hefyd y wybodaeth ddiweddaraf am y prosiect Cymwys ar gyfer y Dyfodol.
- 10.2 Darparodd JW ddiweddariad o gyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a gynhaliwyd ar 4 Tachwedd 2021, a thynnodd sylw at risg newydd a nodwyd o fwy o gystadleuaeth am dalent gan fod y cynnydd mewn gweithio hybrid yn golygu bod yna o bosibl gronfa lawer mwy o bobl i sefydliadau dynnu ohoni, a allai arwain at staff yn cael eu cipio.
- 10.3 Rhoddodd GH ddiweddariad ar gyfarfod diweddar y Grŵp Ymchwil a dywedodd fod trafodaethau wedi'u cynnal ar Cymwys ar gyfer y Dyfodol, yn ogystal â barn gymharol a sut y gallai hyn fod yn rhan o'r hyn a gaiff ei ddatblygu ar gyfer ei asesu yn y dyfodol.

11. Rhagolwg

11.1 Nododd y Bwrdd y Rhagolwg a gofynnwyd i'r aelodau gysylltu ag MP pe byddai unrhyw eitemau yr hoffent eu hychwanegu at agendâu'r dyfodol.

12. Unrhyw fater arall

12.1. Nododd y Bwrdd yr adroddiadau canlynol a ddarparwyd er gwybodaeth:

- QWB51.13 - Aelodaeth Pearson o OIA
- QWB51.14 - Canfyddiadau ymchwil i asesiadau di-arholiad
- QWB51.15 - Dibenion cymwysterau TGAU y Cwricwlwm i Gymru

Daeth y cyfarfod i ben am 2.15pm